

Electroneg ar y Blaen ym Mangor



RHIFYN 2

Hydref 08 – Gaeaf 09

Y TU FEWN

- Panel Ymgynghorol ar Ddiwydiant
- Darlith a Chinio Blynyddol y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg (IET)
- Mae Peirianeg yn Herio Cannoedd o Fyfrwyr
- Peirianeg Electronig a Maes Uafur Lefel-A Ffiseg
- Llwyddiant Cyfarpar Uwch-Dechnoleg i gael Grant.
- Ail-wampio'r Ystafell Ddarllen
- Alumni yn Ymweld â'r Ysgol
- Myfyrwyr Peirianeg yn Helpu i Brofi Prototeip

Eitem o Newyddion

Diwrnodau Agored UCAS

Bydd yr Ysgol yn cynnal nifer o Ddiwrnodau UCAS ar y dyddiadau isod:

Dydd Iau, 12 Chwefror

Dydd Iau, 19 Chwefror

Dydd Iau, 26 Mawrth

Bydd y Prifysgol yn cynnal tri Diwrnod Agored ar ben y rhain, ar:

Dydd Sadwrn, 4 Gorffennaf 2009

Dydd Sadwrn, 10 Hydref 2009

Dydd Sadwrn, 31 Hydref 2009

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar ee-news@bangor.ac.uk, neu ewch i'n gwefan, [sef www.eng.bangor.ac.uk](http://www.eng.bangor.ac.uk)

Yr Adran 4-Seren Orau




Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod yr Ysgol Peirianeg Electronig ym Mangor wedi ennill y sgôr uchaf yng nghategori 4 seren yr Ymarfer Asesu Ymchwil (RAE) diweddar. Dengys graddfa 4 seren fod gweithgaredd ymchwil ymysg y staff o safon fyd-eang o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyrred. Mae'r Ysgol wedi ennill yr ail safle yn y DU, a hi sydd â'r raddfa uchaf o fewn Prifysgol Bangor.

Cynhelir yr Ymarfer Asesu Ymchwil ar y cyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE), Cyngor Cyllido'r Alban (SFC), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC / HEFCW) a'r Adran Gyflogaeth a Dysgu, Gogledd Iwerddon (DEL).

"Bu'r Ysgol Peirianeg Electronig erioed ag enw da am yr ymchwil o'r ansawdd uchaf, ac mae'n bleser gennyf fod hyn wedi'i gydnabod yn swyddogol â graddfa 4 seren o'r RAE," meddai'r Athro Paul Spencer, Pennaeth yr Ysgol. Aeth ymlaen i ddweud, "... mae'r canlyniad hwn o bwys arbennig i'n holl fyfrwyr, yn israddedigion ac yn ôl-raddedigion, am eu bod yn dod i gysylltiad ag arbenigeddau ymchwil yr Ysgol ym mhob agwedd ar yr addysg a gânt."

Myfyrwyr yn Derbyn Gliniaduron

Eleni, cafodd holl fyfrwyr Peirianeg Electronig liniadur newydd ar ddechrau eu cwrs. Roedd y gliniaduron yn cynnwys nodiadau cyrsiau a meddalwedd diwydiant safonol sy'n ofynnol ar gyfer y cwrs. "Bu'r fenter hon



mor llwyddiannus fel y byddwn yn parhau â hi ar gyfer myfyrwyr y flwyddyn nesaf," meddai Iestyn Pierce, Tiwtor Derbyn.

"Roeddem yn teimlo y byddwn, wrth roi i'r myfyrwyr y galedwedd a'r feddalwedd sy'n angenrheidiol i'r cwrs, yn eu rhoi ar y blaen o'r cychwyn, a'u helpu i ymgartrefu'n rhwydd yn eu semester cyntaf."

<http://www.eng.bangor.ac.uk/>

E-bost: ee-news@bangor.ac.uk



Collective inspiration

Darlith a Chinio Blynyddol y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg (IET)

Cynhaliwyd y Ddarlith a'r Cinio Blynyddol, dan nawdd yr IET, yn y Ganolfan Reolaeth, gyda darlith yn Neuadd Powis ymlaen llaw. Rhoddodd Dr Peter Vukusik o Brifysgol Caerwysg (Exeter) sgwrs ddiddorol iawn, yn dwyn y teitl "All Things Bright and Beautiful: The Science of Evolutionary Light and Colour". Yn y cinio,

cyflwynodd yr Athro Paul Spencer rai gwobrau i Stefan Roberts, myfyriwr o Flwyddyn 3. Enillodd Stefan Wobr Dr R.H.C. Newton ar gyfer y myfyriwr gorau ym Mlwyddyn 2 neu Flwyddyn 3, a gwobr David Owen am berfformiad neilltuol o dda. Llongyfarchiadau lu i Stefan ac i holl enillwyr gwobrau Peirianeg ar eu campau.



Yr Athro Paul Spencer, Pennaeth yr Ysgol, Dr. Sa'ad Mansoor, Pennaeth yr Ysgol Cyfrifiadureg, a'r Athro Martin Taylor, gyda myfyrwyr Bl.3 Jeremy Murray, Stefan Roberts a Robert Levi.

Gwobrau i Fyfirwyr Peirianeg Electronig, 2007/2008

James Sweetman

IEEE Y Myfyriwr gorau yn y flwyddyn Olaf-ond-un.

IEEE Gwobr Project mewn Telathrebu.

Gwobr Goffa Dyfarnwyd i'r project mwyaf teilwng gan Paul Green raddedigion y flwyddyn olaf.

Stefan Thomas Robert Roberts

RHC Newton Dyfarnwyd i fyfyrwr gorau Bl.2 am fathemateg mewn pwnc peirianyddol.

Dr David Owen Am berfformiad neilltuol o dda mewn ffiseg.

Matthew Wootton

IEEE Gwobr project cyfathrebu MSc.

Mohamed Arsath Ali Dyfarnwyd i fyfyrwr Blwyddyn Olaf am yr hyfedredd mwyaf mewn mathemateg beirianeg-gysylltiedig.

Richard Pinnell

Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg Dyfarnwyd i'r myfyriwr Blwyddyn Olaf gorau ar gwrs achrededig gan yr IEE (IET).


Enwebwyd ar gyfer:

Dr John Robert Jones Dyfarnwyd gan Senedd Prifysgol Bangor am y perfformiad academaidd mwyaf teilwng.

Mae Dr Jianming Tang yn Croesawu Cydweithredwr Rhyngwladol

Yn ddiweddar, mae Xuelin Yang, Uwch Ymchwilydd o Grŵp System Photonics, Athrofa Genedlaethol Tyndall, yn Cork, Iwerddon, wedi ymuno â grŵp Jianming fel ymchwilydd contract. Bydd ym

Mangor am ddwy flynedd. Swyddogaeth Xuelin Yang fydd cynnal arbrofion ar gyfer project EUALPHA, y mae Jianming fel bartner project pwysig ynddo.



Dr. Jianming Tang gyda Xuelin Yang (dde).

Panel Ymgynghorol ar Ddiwydiant

Croesawodd yr Ysgol Peirianeg Electronig a'r Ysgol Cyfrifiadureg eu haelodau o'r Panel Diwydiant ar gyfer cyfarfod y flwyddyn hon. Mae'r Panel Diwydiant yn fwrdd ymgynghorol, yn cynnwys partneriaid o ddiwydiant sy'n cydweithredu ar brojectau, yn rhoi sylwadau ar dueddiadau mewn diwydiant, a hefyd yn cyfrannu syniadau

ar gyfer projectau a lleoliadau i fyfirwyr. "Mae'r Panel Diwydiant yn ychwanegiad hanfodol at ein Hysgol," meddai Paul Spencer, Pennaeth yr Ysgol, "Mae arbenigwyr mewn diwydiant sy'n arwain yn eu meysydd yn ein cynorthwyo i addasu ein cyrsiau ar gyfer tueddiadau mewn diwydiant, fel bod ein myfyrwyr yn gyflogadwy."



Aelodau o'r Panel Diwydiant (O'r chwith) Dr Takis Hadjifotiou Nortel Networks, Yr Athro Paul S Spencer Pennaeth yr Ysgol, Peirianeg Electronig, Trefor Davies Timico, Dave Bevan NPOWER Renewables, Dr Sa'ad Mansoor Pennaeth yr Ysgol, Cyfrifiadureg, Paul Englefield IBM, Phil Drew PDS Consultants, Gaynor Mew, Rheolwr Coleg, David Joyner, Porth Arloesi Bangor.

Mae Peirianeg yn Herio Cannoedd o Fyfirwyr

Yn ddiweddar, cynhaliwyd Sialens Flynyddol y Timau Peirianeg. Trefnir y sialens gan Ganolfan Peirianeg Gogledd a Chanolbarth Cymru (ECNMW), gyda chymorth gan yr Ysgol Peirianeg Electronig a Gyrfa Cymru.

Dyfeisiwyd y sialens eleni gan lan Binning o ECNMW a Dr Iestyn Pierce o Beirianeg Electronig, gyda chymorth gan Andrew Campbell

o Tradlifts, cwmni sy'n cynhyrchu lifftiau.

Roedd yn rhaid i fyfirwyr adeiladu a phrofi lifft a siafft lifft a yrrid gan fodur trydanol a chylched rheolaeth electronig. Fel rhan o'r diwrnod, clywodd y myfyrwyr sgwrs gan beiriannydd lleol: Disgrifiodd Dr Donna Evans o Alwminiwm Môn fel y daeth yn Uwch Beiriannydd Proses, a'r hyn y mae ei gyrfa yn ei olygu.



Y Tim Buddugol: Tytus Tulwin, Agriesza Tulwin – Ysgol David Hughes, Gerwyn Roberts – Ysgol Dyffryn Ogwen, Ahamina Begum – Coleg Meirion Dwyfor, Brenig Gwilym – Ysgol y Berwyn, Mari Slater Parry – Ysgol Brynrefail

Peirianeg Electronig a Maes Uafur Lefel-A Ffiseg

Mewn ymateb i faes llafur newydd CBAC ar gyfer Ffiseg lefel-A, bydd yr Ysgol Peirianeg Electronig yn cynnal cyfres o weithdai ar Laserau ac opto-electronig. Bydd y rhain yn rhoi sylw i'r syniadau sylfaenol sydd y tu ôl i weithrediad laserau atomig, a hefyd yn disgrifio'r pynciau o laserau lled-ddargludol sydd eu hangen ar gyfer y maes llafur lefel-A. Yn ogystal â chyflwyniad, bydd y gweithdai'n cynnwys cyfleoedd i fyfirwyr ymdrin yn uniongyrchol â systemau laser lled-ddargludol diogel, yn cynnwys gweld dangosiad o systemau cyfathrebu optegol sy'n seiliedig ar laser.

Mae'r Ysgol Peirianeg Electronig hefyd yn cynnig amrywiaeth o ddarlithiau a gweithdai eraill i fyfirwyr lefel-A mewn Ffiseg ac Electroneg, yn cynnwys "Phasors and AC Circuits" ar gyfer Ffiseg lefel-A.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw rai o'n darlithoedd neu'n gweithdai, cysylltwch ag ee-news@bangor.ac.uk.

Ysgol Peirianeg Electronig

<http://www.eng.bangor.ac.uk/>


Llwyddiant Cyfarpar Uwch-Dechnoleg i gael Grant.

Yn ddiweddar, mae grŵp yr Athro Martin Taylor wedi ennill grant A4B gwerth £230K gan Lywodraeth y Cynulliad. Trwy hwn, bydd y grŵp yn gallu prynu blwch menig nitrogen, yn ymgorffori anweddydd thermol ar gyfer metelau a deunyddiau organig, fel ei gilydd, sbin-orchuddiwr



Yr Athro Martin Taylor

a microsop. Bwriad y project yw cynorthwyo Cwmnïau Bychain a Chanolig yng Nghymru i ddatblygu celloedd ffoto-foltäig ar gyfer paneli solar, ac arddangosiadau organig sy'n allyrru golau. Gosodir y system yn yr Ystafell Lân a bydd ar waith fis Mawrth nesaf.



"Y Pry Cop" ar ei "we"

Mewn gwirionedd, sampl o Nano-Lithograffeg sydd yn y llun. Ffurfiwyd y "we" gan ddefnyddio pen blaen Microsop Grym Atomig a oedd wedi'i drochi mewn toddiant o foleciwlau i ysgrifennu ar wyneb aur. Tuag 1 nanomedr yw trwch "edefyn yn y we", a 5,000 nanomedr yw diamedr y "we" yn ei chyfanrwydd. 100,000 nanomedr yw trwch blewyn dynol.

Myfyrwyr Peirianeg yn Helpu i Brofi Prototeip

Mae Dr Iestyn Pierce wrthi'n cynorthwyo Grŵp Cub-Scouts 1st Molscroft, East Riding, Dwyrain Swydd Efrog, i gynhyrchu'r "Pinewood Derby" cyntaf i'w gynnal yn y DU, yn ôl y sôn.

Mae hon yn gystadleuaeth boblogaidd iawn yn yr Unol Daleithiau, lle mae Cub-Scouts yn adeiladu ceir pren a'u rasio. Mae Dr Pierce yn cynorthwyo'r Cub-Scouts i gynllunio'r system amseru cyntaf



Amserydd Pinewood

o'i math ar gyfer y rasys, a chaiff myfyrwyr Project Tîm BEng gyfle i wella'r cynllun prototeip i'r eithaf, yn barod i'w gynhyrchu ar raddfa fawr.

Alumni yn Ymweld â'r Ysgol

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Brifysgol ddathliad ym ar gyfer Graddedigion Bangor o'r 1950au a'r 1960au. Croesawodd yr Ysgol yn ôl rai o'i graddedigion Peirianeg, a fwynhaodd ymweliad â Stryd y Deon, gyda thaith o gwmpas yr adeilad ac arddangosiadau. Bu William Stanley "Stan" Jones a raddiodd ym 1966 yn bresennol yn y dathliadau. Mae Mr Jones wedi cael gyrfa hir ac anrhydeddus, ac wedi gweithio i Rolls Royce, ymysg cwmnïau eraill, ac ar hyn o bryd yn Ymddiriedolwr a Thrysorydd Mygedol i Gymdeithas Ynni Niwclear Prydain. Pan ofynnwyd iddo beth roedd ei astudiaethau ym Mangor wedi'i olygu iddo, "Atgofion bendigedig," oedd ateb Stan, "Addysg wych a gyrfa ryfeddol."



Graddedigion o Fangor o'r 50au a'r 60au.

Ail-wampio'r Ystafell Ddarllen

Yn ddiweddar, mae Ystafell Ddarllen yr Ysgol Peirianeg Electronig wedi'i hail-wampio. Mae'r Llyfrgell/ Ystafell Ddarllen yn enghraifft wych o gynllun adeiladau cyhoeddus yn y 1960au ac, o'r herwydd, roedd yr Ysgol yn awyddus i gadw'r ystafell yn ei chyflwr gwreiddiol. Mae'r Ystafell Ddarllen wedi'i chyflwyno i Wynn Humphrey Davies, y mae ei ymddiriedolaeth yn dal i ddarparu bwrsariaethau ac ysgoloriaethau ar gyfer ein myfyrwyr heddiw. Mae'r Ystafell Ddarllen i'w hagor yn swyddogol yn 2009 er mwyn nodi 125 mlwyddiant y Brifysgol.